
Comisiwn **Seilwaith** Cenedlaethol **Cymru**
National **Infrastructure** Commission **Wales**



# SAFBWYNTIAU AR SEILWAITH Y SECTOR TRAFNIDIAETH

## CRYNODEB GWEITHREDOL

**mewn partneriaeth â**

ARCADIS

Comisiwn **Seilwaith** Cenedlaethol **Cymru**
National **Infrastructure** Commission **Wales**

Comisiynwyd Arcadis gan Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (CSCC) i asesu anghenion seilwaith y presennol a'r dyfodol ar draws y sectorau ynni, dŵr, trafnidiaeth, digidol ac economi gylchol, ac i nodi'r materion allweddol i sylw Llywodraeth Cymru.

Mae'r crynodeb hwn yn canolbwyntio ar y sector trafnidiaeth, gan archwilio cyflwr, cydnerthedd ac integreiddiad system drafnidiaeth Cymru i nodi'r risgiau a'r blaenoriaethau mwyaf hanfodol.

Mae trafnidiaeth yn hanfodol ar gyfer datblygiad economaidd, lles cymdeithasol a chynaliadwyedd yng Nghymru, gan gefnogi cyfleoedd i fanteisio ar swyddi, addysg a gwasanaethau. Mae cyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn dibynnu ar rwydwaith trafnidiaeth dibynadwy, cynhwysol a charbon isel, ac mae'r egwyddorion hyn yn sail i Llwybr Newydd, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

Mae'r sector yn wynebu heriau parhaus o ran seilwaith sy'n heneiddio, buddsoddiad cyfyngedig, newid hinsawdd, a chynllunio a chyflawni tameidiog. Mae ymdrin â'r materion hyn yn gofyn am weithredu cydgysylltiedig ac arloesi polisi ar draws cyd-destun cymhleth cyrff Llywodraeth Cymru a'r DU, awdurdodau lleol, gweithredwyr, a rheoleiddwyr. Bydd cyllid a chydweithredu tymor hir yn hanfodol ar bob lefel i sicrhau bod seilwaith trafnidiaeth yn diwallu anghenion pob cymuned ac yn cefnogi nodau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach Cymru.



## Y SEFYLLFA BRESENNOL

### Y Berthynas â Chynllunio Defnydd Tir

- Mae angen integreiddio cryfach rhwng trafnidiaeth a chynllunio defnydd tir.
- Mae datgysylltu parhaus yn golygu bod datblygiadau newydd yn aml yn brin o gysylltiadau drafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol ac yn dibynnu ar fynediad mewn car, gan danseilio nodau datgarboneiddio a hygyrchedd.

### Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd

- Ar hyn o bryd, mae newid modd yn digwydd yn rhy araf, gan wynebu risg y bydd Cymru'n syrthio ar ei hôl hi gyda'i thargedau ar gyfer sero net a chydnerthedd hinsawdd.
- Mae mabwysiadu cerbydau trydan wedi'i gyfyngu gan ddiffyg cyfleusterau gwefru, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd adeiledig heb barcio oddi ar y stryd.
- Mae cyllid ar gyfer seilwaith teithio llesol (cerdded a beicio) dan fygythiad, ac mae beirniadaeth ynglŷn ag effaith ac effeithiolrwydd y cynlluniau presennol.
- Mae cynnydd cyfyngedig ar drydaneiddio'r rhwydwaith rheilffyrdd yn cyfyngu ar gynnydd ar ddatgarboneiddio rheilffyrdd.

### Integreiddiad a Hygyrchedd Trafnidiaeth Gyhoeddus

- Mae tocynnau tameidiog ac amserlenni anghydnaws yn rhwystro teithiau di-dor ac yn gwneud trafnidiaeth gyhoeddus yn llai deniadol.
- Mae trafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd gwledig yn aml yn gyfyngedig iawn, gan orfodi pobl i ddibynnu ar geir ac mae'n ei gwneud hi'n anoddach o ran cael y cyfle i fanteisio ar wasanaethau neu barhau i gynnal cysylltiadau cymdeithasol.
- Mae dyheadau polisi ynghylch newid modd yn ymddangos yn afrealistig lle nad oes dewisiadau rhesymol eraill heblaw am ddefnyddio car.

### Datrysiadau Trafnidiaeth Digidol a Chlyfar

- Mae digideiddio yn cyflwyno cyfleoedd ar gyfer tocynnau integredig, gwybodaeth amser real, a rhwydweithiau hawdd eu defnyddio, ond mae'r broses o'u cyflwyno wedi bod yn anghyson.
- Mae bylchau data a seilwaith digidol cyfyngedig yn cyfyngu'r gallu i optimeiddio gwasanaethau a chefnogi arloesedd.
- Mae gwybodaeth trafnidiaeth amser gwirioneddol ac atebion clyfar yn llai hygyrch mewn ardaloedd gwledig oherwydd signal symudol gwael, gan gyfrannu at raniad digidol.

### Cydnerthedd y Seilwaith ac Addasu i'r Hinsawdd

- Mae seilwaith sy'n heneiddio a risgiau hinsawdd cynyddol (llifogydd, tonnau gwres, cynnydd yn lefel y môr) yn bygwth dibynadwyedd a diogelwch y rhwydwaith.
- Mae rheoli a chynnal asedau wedi'u tanariannu, gan arwain at ôl-groniad cynyddol.
- Mae tarfu ar wasanaethau dro ar ôl tro yn bygwth gweithgarwch economaidd, mynediad at wasanaethau hanfodol, a lles cymunedol, yn enwedig ar gyfer poblogaethau gwledig ac ynysig.



# BLE RYDYN NI AR HYN O BRYD

Mae **20%** o allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru yn dod o drafnidiaeth. ($CO_2$)

Daw **57.6%** o allyriadau nwyon tŷ gwydr trafnidiaeth o geir.

1 Rhestr Allyriadau Atmosfferig Cenedlaethol (2023) – Rhestr Nwyon Tŷ Gwydr ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon: 1990-2023

Dim ond **2.3%** o gerbydau ffordd yng Nghymru sy'n Gerbydau Allyriadau Isel Iawn, o'i gymharu **3.7%** ledled y DU.

2 Trafnidiaeth Cymru (2025) – Strategaeth Drafnidiaeth Cymru: Mesurau Monitro – Mesur Atodol S10
Llywodraeth Cymru (2021) Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan Cymru

Mae'r mannau gwefru sydd ar gael yn dylanwadu'n allweddol ar ddewis cerbydau trydan.

Mae **3,519** o ddyfeisiau gwefru ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru (mis Gorffennaf 2025).

Mae angen hyd at **55,000** o wefrwyr cyflym newydd erbyn 2030.

3 Yr Adran Drafnidiaeth (2024) – Ystadegau trwyddedu cerbydau a thablau data Strategaeth gwefru cerbydau trydan ar gyfer Cymru

Bydd newid hinsawdd yn cynyddu'r angen am gynnal a chadw.
Canran y rhwydwaith sydd eisoes yn wynebu risg uchel neu ganolig o lifogydd:

- Rhwydwaith rheilffyrdd **12.4%**
- Rhwydwaith ffyrdd strategol **8%**
- Rhwydwaith ffyrdd lleol o **5%**

4 Ffynhonnell y data: DataMapWales (2023) – Asesiad Perygl Llifogydd Cymru

Mae **49.9%** o bobl yng Nghymru o fewn pellter cerdded i drafnidiaeth gyhoeddus

Mae **52%** yn cerdded neu'n beicio unwaith yr wythnos

5 Trafnidiaeth Cymru (2023) – Strategaeth Trafnidiaeth Cymru: Mesurau Monitro – Mesur Atodol S3 a Llywodraeth Cymru (2023) – Arolwg Cenedlaethol Cymru

Uchelgais Llywodraeth Cymru yw i bob bws gwasanaeth cyhoeddus fod yn ddi-allyriadau erbyn 2035

Ar hyn o bryd, mae **94** o **2,330** o fysiau lleol yn cael eu gweithredu gan fatri.

Mae tanwyddau amgen, fel hydrogen, yn cael eu treialu. ($H_2$)

6 Llywodraeth Cymru (2024) – Cerbydau gwasanaeth cyhoeddus (bysiau a thacsis): Ebrill 2022 i Fawrth 2023





## HERIAU'R DYFODOL

1. Mae angen fframwaith polisi clir, cyson i gefnogi gwneud penderfyniadau a chyllid hirdymor.
2. Bydd uwchraddio ac addasu seilwaith trafnidiaeth i wrthsefyll tywydd eithafol amlach yn hanfodol ar gyfer rhwydweithiau dibynadwy.
3. Bydd poblogaeth sy'n heneiddio a phatrymau gwaith sy'n datblygu yn gofyn am ddatrysiadau trafnidiaeth mwy hygyrch, hyblyg a chynhwysol yn y dyfodol.
4. Bydd integreiddio llwyfannau digidol, awtomeiddio a thanwydd amgen yn gofyn am addasiad parhaus, o ran seilwaith a sgiliau'r gweithlu.
5. Mae angen buddsoddiad ac arloesi parhaus i sicrhau bod y system drafnidiaeth yn parhau i fod yn gydnerth, yn garbon isel, ac yn addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
6. Mae angen canolbwyntio'n allweddol ar ddarparu'n well ar gyfer ardaloedd gwledig a llai hygyrch heb eu gwasanaethu'n ddigonol, wrth i dechnolegau newydd a dewisiadau symudedd ddatblygu.
7. Mae angen symud o welliannau cynyddol i drawsnewid systemig, gan greu system drafnidiaeth wirioneddol integredig, cynaliadwy a chynhwysol.

## UCHELGEISIAU AR GYFER Y DYFODOL

Mae'r astudiaeth hon yn awgrymu y dylai uchelgeisiau allweddol yn y dyfodol fod i wneud y canlynol:

**Tymor byr (hyd at 2040):**

- Darparu system drafnidiaeth hygyrch, gynaliadwy ac effeithlon sy'n cyd-fynd â Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, Sero Net Cymru, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Cynyddu defnyddio teithio cyhoeddus a llesol (i 39% erbyn 2030), lleihau milltiroedd car, ac ehangu dewisiadau trafnidiaeth integredig, carbon isel.
- Buddsoddi mewn prosiectau Metro, trydaneiddio rheilffyrdd, tocynnau integredig, a cherbydau di-allyriadau.
- Canolbwyntio ar ddatgarboneiddio, iechyd, ansawdd aer, a chydnerthedd cymunedol.

**Tymor Canolig a Hir (2040+):**

- Trosglwyddo i rwydwaith trafnidiaeth carbon isel wedi'i integreiddio'n llawn sy'n gydnerth, cynhwysol ac arloesol.
- Ymwreiddio cynaliadwyedd ac arloesedd digidol, gan wneud trafnidiaeth gyhoeddus, teithio llesol, a symudedd a rennir yn ddewisiadau diofyn ar gyfer y rhan fwyaf o deithiau.
- Mabwysiadu tanwyddau, technolegau a modelau symudedd newydd, gan sicrhau mynediad cyfartal i bob cymuned a seilwaith sy'n diogelu'r dyfodol yn erbyn newid hinsawdd.

# CAMAU GWEITHREDU Â BLAENORIAETH

Mae'r adolygiad hwn wedi nodi amrywiaeth o faterion a heriau sy'n gofyn am weithredu pellach.

**Y prif flaenoriaethau yw:**

- Ymdrin â chyfyngiadau cyllid ac adnoddau, yn enwedig ar gyfer cynnal ac addasu i'r hinsawdd. Wrth i ddigwyddiadau tywydd eithafol ddod yn fwy aml, rhaid i brosiectau yn y dyfodol fod yn gydnerth i newid hinsawdd.
- Gwella integreiddio rhwng gwasanaethau bysiau a rheilffyrdd ac ehangu galluoedd digidol i bontio'r rhaniad gwledig-trefol.
- Gwella darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd gwledig i leihau dibyniaeth ar geir.
- Cyflymu datgarboneiddio trwy gefnogi'r trawsnewidiad i danwydd amgen, cynyddu defnyddio cerbydau trydan, a diogelu cyllid teithio llesol.
- Annog a chyflymu newid ymddygiad teithio cynaliadwy i gyflawni'r newid moddol angenrheidiol.
- Integreiddio defnydd tir a chynllunio trafnidiaeth yn well i sicrhau bod datblygiadau newydd wedi'u cysylltu'n dda â thrafnidiaeth gynaliadwy ac yn cefnogi twf economaidd.

Gweler y prif adroddiad am fwy o fanylion am gamau gweithredu ychwanegol.



Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru
National Infrastructure Commission Wales



I wybod mwy
sganiwch y cod QR.